# LEWIS, DAVID (1760 - 1850), clerigwr

**Enw:** David Lewis
**Dyddiad geni:** 1760
**Dyddiad marw:** 1850
**Rhiant:** David Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn 1760 yn y Dderwen Groes, ym mhlwyf Abergwili, Sir Gaerfyrddin, yn fab i David Lewis, a'i addysgu yn Llanpumpsaint ac yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin dan Robert Gentleman. Ymaelododd ym Mhrifysgol Rhydychen (Coleg Iesu), Mehefin 1782, ond nid ymddengys iddo raddio. Bu'n athro ac yn gurad yng Nghroesoswallt, ac urddwyd ef yn offeiriad Mai 1785; yn Ionawr 1787 sefydlwyd ef yn ficer Abernant, Sir Gaerfyrddin, ac yn gurad parhaus Cynwyl Elfed, Mawrth 1787. Bu yno hyd ei farw, 28 Gorffennaf 1850, a chladdwyd ef yn Abernant. Daliodd hefyd reithoraeth Garthbeibio, Sir Drefaldwyn, o 1794 hyd 1850.

Yr oedd Lewis yn ustus heddwch dros Sir Gaerfyrddin, ac yn archwiliwr i'r gymdeithas a sefydlwyd gan yr esgob Thomas Burgess er cynorthwyo darpar-glerigwyr. Yr oedd yn un o hyrwyddwyr eisteddfodau Caerfyrddin, ac ysgrifennodd ragair i bryddestau eisteddfod 1819. Cyhoeddodd *Esponiad Byr o Gatecism yr Eglwys*, 1824, sef cyfieithiad o waith B. Wood.

## Awdur

**Thomas Iorwerth Ellis**, (1899 - 1970)

## Ffynonellau


*Yr Haul*, 1850, 320

*Seren Gomer*, 1850, 287

Foster, *Alumni Oxonienses*

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), s.v. Garthbeibio

*A History of Carmarthenshire*, ii, 125

*The Welshman*, 2 Awst 1850

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5236556

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu